# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 5**

CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

**PENNOD 3**

SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG PAN FO CAIS WEDI EI WNEUD

*Rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt*

**72 Rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu corff corfforedig (a elwir yn gyd-bwyllgor corfforedig) i arfer, mewn perthynas â phrif ardaloedd y prif gynghorau a wnaeth y cais cyd-bwyllgor ("y cynghorau perthnasol"), swyddogaeth a bennir yn y rheoliadau.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw'r amodau a nodir yn adran 73 wedi eu bodloni.

(3) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon ond pennu—

(a) swyddogaeth i'r prif gynghorau a wnaeth y cais;

(b) y swyddogaeth llesiant economaidd.

(4) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon sy'n pennu swyddogaeth prif gyngor wneud darpariaeth fel bod y swyddogaeth naill ai—

(a) yn arferadwy gan y cyd-bwyllgor corfforedig yn hytrach na chan y cynghorau perthnasol, neu

(b) yn arferadwy yn gydredol gan y cyd-bwyllgor corfforedig a'r cynghorau perthnasol.

(5) Caniateir i swyddogaeth prif gyngor gael ei phennu mewn rheoliadau o dan yr adran hon drwy gyfeirio at weithgaredd neu weithgareddau penodol.

**73 Yr amodau sydd i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt**

(1) Mae'r amodau a grybwyllir yn adran 72(2) fel a ganlyn.

(2) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi cael cais cyd-bwyllgor.

(3) Yr ail amod yw bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r canlynol ar ddrafft o'r rheoliadau arfaethedig—

(a) y prif gynghorau a wnaeth y cais cyd-bwyllgor,
(b) pobl leol yn ardaloedd y prif gynghorau,
(c) pob un o'r cynghorau ar gyfer cymunedau yn ardaloedd y prif gynghorau,
(d) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal unrhyw un neu ragor o'r prif gynghorau,
(e) y bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau,
(f) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan un neu ragor o'r prif gynghorau, ac
(g) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(4) Y trydydd amod yw bod pob un o'r prif gynghorau a wnaeth y cais cyd-bwyllgor wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig i'r rheoliadau gael eu gwneud.